Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cynghorydd: Kenneth Pritchard Hughes
Grwp: Annibynnol **Ward: Talybolion**

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac yn gyfrifol am Addysg.

Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	**[1]Ffigyrau Presenoldeb**
Cyngor	8 (100%)
Pwyllgor Gwaith	14 (100%)
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	14 (100%)
Pwyllgor Trwyddedu	1 (100%)
Panel Rhiantu Corfforaethol	4 (100%)
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 5 cyfarfod (83%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth.

Rwyf yn aelod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:	**Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd**	**Nifer a fynychwyd**
Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon	3	1
Grŵp Rhanddeiliaid y Safle Wylfa	2	2
Bwrdd Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW)	2	0
Pwyllgor Rheoli CYNNAL	2	2
Cydbwyllgor Addysg Cymru	2	2
Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn	4	2
Cymdeithas Amaethyddol Môn	8	6

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn aelod o Cyngor Cymuned Cylch y Garn ac wedi bod yn mynychu cyfarfodydd o'r 7 Cyngor Cymuned arall yn ward Talybolion sef Llanfaethlu, Llanddeusant, Llanfachraeth, Llanerchymedd, Tref Alaw, Llanfairynghornwy a Llanfechell fel sylwebydd.

Yn ystod 2015/16 bûm yn parhau i weithredu fel Cadeirydd Ysgol Uwchradd Bodedern Rwyf hefyd yn Aelod o gorff Llywodraethwyr Ysgol Cylch y Garn ac wedi bod yn mynychu cyfarfodydd o gyrff llywodraethu ysgolion Llanfachraeth a Llanfaethlu fel sylwebydd.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn ystod y flwyddyn yn ogystal cefais y cyfle i barhau â'r diddordeb sydd gennym mewn gwaith ieuenctid drwy fynychu rhai clybiau ieuenctid yn achlysurol yn ward Talybolion. Rwyf hefyd wedi cynorthwyo gyda'r Cyngor Cymuned i sefydlu rhandiroedd yn Llanerchymedd

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Ymwybyddiaeth am Ddiogelu	25 Mehefin 2015
Llywodraethu Gwybodaeth – Sesiwn Gyffredinol	24 Tachwedd 2015
Deall Dementia	24 Tachwedd 2015
Sesiynau Briffio Aelodau (10 allan o 11 = 91%)	Ebrill 2015 – Mawrth 2016

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi bod yn gwasanaethu ar bwyllgorau rheoli neuaddau pentref yn Llanfaethlu, Llanfachraeth a Llanfairynghornwy. Yn Llanfairynghornwy yn ogystal bum yn rhan o bwyllgor yn trefnu diwrnod chwaraeon yn yr ardal

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=38&LLL=1

Y Cynghorydd Kenneth Pritchard Hughes	**Ebrill 2016**